# Adroddiad Arolygu

**Blodyn Tatws**

**Parc Cefni**
**Bodffordd**
**Llangefni**
**LL77 7PJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Blodyn Tatws

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Lindsay Boyle |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | *Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.* |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, gan ganolbwyntio ar lesiant, rhai elfennau o ofal a datblygiad, yr amgylchedd, ac arwain a rheoli.

Mae'r plant yn fodlon, caiff eu hanghenion eu diwallu ac maent yn mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer y plant, mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith, ac maent yn cynnig amrywiaeth briodol o deganau y gall y plant chwarae â nhw. Gwelsom nad oedd digon o brosesau ar waith ar gyfer cwblhau gwiriadau addasrwydd, ynghyd â diffyg cymorth strwythuredig cyson ar gyfer y staff. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau.

## Llesiant

Mae'r plant yn fodlon eu byd.  Maent yn cyfathrebu â'r rheini o'u cwmpas yn rhwydd yn eu dewis iaith.  Mae'r plant yn dewis ble maent am eistedd amser cinio, ac maent yn sgwrsio â'u ffrindiau sy'n eistedd wrth eu hymyl. Maent yn ddigon hyderus i ddweud wrth y staff am yr hyn maent am ei fwyta, gan ofyn am ragor neu ddweud pan oeddent wedi cael digon.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol.  Gwelsom y plant yn mynd allan am dro, a chlywsom y plant hŷn yn sôn sut roeddent yn mynd i ddal gafael yn y gadair wthio ac atgoffa'r staff fod angen iddynt ei gwthio.  Maent yn gwybod i olchi eu dwylo cyn eistedd i lawr i fwyta, ac roeddent yn aros amyneddgar i'w cinio gael ei weini.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau, a gwelsom eu bod yn chwerthin ac yn cael hwyl gyda'i gilydd. Galwodd plentyn ar ei ffrindiau, gan ddangos ei fod wedi stwnsio ei fwyd wrth ganu cân gyfarwydd. Pan wnaeth y staff esgus eu bod wedi bwyta holl fwyd y plant, gwnaethant chwerthin, gan ddweud ‘oh ti’n silly’.

Mae'r plant yn dangos mentergarwch wrth gwblhau tasgau eu hunain.  Gwelsom eu bod yn bwyta eu bwyd yn llwyddiannus heb fawr ddim help.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf, ac maent yn cael llawlyfr yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Maent yn gyfarwydd â'u rolau mewn perthynas â hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff yn helpu'r plant i fod yn gorfforol egnïol ac maent yn treulio amser yn yr awyr iach yn rheolaidd. Mae tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos pan mae anghenion personol wedi'u diwallu, megis pan mae cewynnau wedi'u newid.

Mae'r staff yn sicrhau bod ganddynt drefn feunyddiol sy'n rhoi sefydlogrwydd i'r plant, ac mae'r rhieni'n cael rhywfaint o wybodaeth am gyflawniadau eu plant.  Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau yn unol â'r thema bresennol, ac mae arddangosfeydd lliwgar ar y waliau yn dangos y gwaith mae'r plant wedi'i gwblhau.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu diweddaru a bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gan y sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth weithdrefnau glanhau effeithiol ar waith.

Mae digon o le dan do i'r plant chwarae ac maent yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored yn rheolaidd. Mae'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn defnyddio'r amgylchedd mewn modd hyblyg, gyda'r ardaloedd dysgu gwahanol yn adlewyrchu'r thema bresennol. Mae'r amgylchedd cyfan yn cynnig amrywiaeth dderbyniol o gyfleoedd chwarae. Plannwyd rhai planhigion a llysiau yn yr awyr agored, a gall y plant ddewis dringo ar y ffrâm ddringo neu ddefnyddio'r teganau reidio. Mae ystafell gysgu ddynodedig yn darparu ardal lonydd a thawel i'r plant iau gysgu ynddi. Mae'r goleuadau ymlaciol yn eu helpu i setlo ac mae camera yn golygu y gall y staff eu gwylio bob amser. Mae gwiriadau corfforol rheolaidd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Defnyddir dillad gwely y plant eu hunain, a chaiff cadeiriau gwthio eu defnyddio hefyd, yn unol â dewisiadau'r rhieni a'r plant.

Mae'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i'r plant. Mae digon o'r rhain ar gael. Er mwyn cynnal gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol, mae'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr bod amrywiaeth o adnoddau yn cael eu cylchdroi bob 72 awr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diheintio. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd rhwydd i'r plant, gan eu galluogi i ddewis yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn rhwydd.

## Arwain a Rheoli

Ar y cyfan, mae gan y person cofrestredig weledigaeth ar gyfer ei gwasanaeth, sy'n cael ei adlewyrchu yn ei datganiad o ddiben. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu yn unol â gofynion COVID-19. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau ei bod yn casglu'r holl wybodaeth gan y rhieni i'w galluogi i ofalu am y plant yn ddiogel, a chaiff y dogfennau eu diweddaru os bydd angen. Cedwir cofnod o'r plant sy'n bresennol, a'r amser maent yn cyrraedd ac yn gadael. Mae'r staff hefyd yn cofnodi'r amser maent yn cyrraedd ac yn gadael, ond nid ydynt yn cofnodi egwylion nac unrhyw adegau eraill pan nad ydynt yn gyfrifol am ofalu am y plant, er enghraifft adegau mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu. Nid yw'r person â chyfrifoldeb, sy'n aelod ychwanegol o staff, yn cofnodi'r oriau y mae'n bresennol. Felly, ni allwn gadarnhau a oes digon o aelodau o staff yn bresennol yn ystod egwyliau ac amser cinio, gan nad oedd unrhyw gofnodion i ddangos hyn.

Gwelsom brosesau recriwtio gwael a phrosesau sefydlu a goruchwylio aneffeithiol. Mae'r person cofrestredig yn cwblhau rhai o'r gwiriadau gofynnol ar y staff sydd newydd gael eu penodi, ond roedd yn cydnabod nad yw'r holl ddogfennau rheoleiddiol gofynnol wedi'u casglu. Mae gan yr unigolyn cofrestredig broses anffurfiol ar gyfer goruchwylio a sefydlu staff i'w rolau newydd, a chynhelir arfarniadau yn achlysurol – gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig o un yn 2019. Ystyriwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau.

Caiff barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei chasglu'n rheolaidd ac mae'r person cofrestredig yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a gaiff eu codi, lle y bo'n bosibl. Mae'r staff yn cwblhau dyddiaduron bob dydd i gyfathrebu â'r rhieni, ac mae ap electronig yn cael ei gyflwyno. Anfonir lluniau at y rhieni yn ystod y dydd i ddangos yr hyn y mae eu plant yn ei wneud. .

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol